# PWYLLGOR SAFONAU
# 1 GORFFENNAF 2019

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Safonau Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, yr Wyddgrug ddydd Llun, 1 Gorffennaf 2019.

**YN BRESENNOL: Julia Hughes (Is-gadeirydd yn Cadeirio)**
Y Cynghorwyr:
Patrick Heesom, Paul Johnson ac Arnold Woolley

Aelodau Cyfetholedig:
Jonathan Duggan-Keen a Ken Molyneux

**YMDDIHEURIADAU:** Rob Dewey a Phillipa Earlam

**HEFYD YN BRESENNOL:** Roedd Cynghorydd Sir y Fflint a Chynghorydd Cymuned Penarlâg, Clive Carver, a Chynghorydd Cymuned Penarlâg, Cheryl Carver, yn bresennol fel cyflwynwyr y ceisiadau am oddefeb.

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Swyddog Monitro, Dirprwy Swyddog Monitro a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

## 9. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)

Dim.

## 10. COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Mehefin 2019.

Materion yn Codi

Cofnod 6: Roedd y wybodaeth am wasanaeth cyfieithu Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a rhannu costau drwy gyd-benodi Clercod wedi'i gynnwys yn yr adborth i Gynghorau Tref a Chymuned ym mis Mehefin.

Mewn ymateb i sylwadau gan y Cynghorydd Johnson a'r Cadeirydd, cytunwyd bod manylion cyrsiau hyfforddiant ar gyfer Clercod yn cael eu rhannu gyda'r Cynghorau Tref a Chymuned.

Cofnod 7: Byddai eitem yn y dyfodol am ganllawiau'r hyn a oedd yn cyfrif fel gwaith / gweithgareddau y tu hwnt i rôl Cynghorydd yn cael ei chynnwys yn y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol.

**PENDERFYNWYD:**

Y dylid cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir ac y dylai'r Cadeirydd eu llofnodi.

## 11. GODDEFEBAU

Eglurodd y Cadeirydd a’r Swyddog Monitro'r weithdrefn sef y caniateir i'r ymgeiswyr siarad cyn gofyn iddynt adael yr ystafell, ynghyd ag aelodau'r cyhoedd, er mwyn i'r Pwyllgor allu penderfynu ar y goddefebau mewn amodau pwyllgor.

Cyngor Cymuned Penarlâg – Cais Cynllunio 060060

Cyflwynodd y Swyddog Monitro pedwar cais am oddefeb gan Gynghorwyr Cymuned Penarlâg; roedd dau ohonynt wedi’u diweddaru (Cynghorwyr Clive a Cheryl Carver) a dau gais arall a dderbyniwyd ar ôl cyhoeddi'r rhaglen (Cynghorwyr Joyce Angell a Bob Connah).

Roedd y pedwar cais yn ymwneud â chais cynllunio ar Dir Hamdden Herbert Gladstone a fydd yn cael ei ystyried yng nghyfarfod Pwyllgor Cynllunio’r Cyngor Cymuned. Gan fod holl Gynghorwyr Cymuned Penarlâg yn Ymddiriedolwyr y Tir Hamdden, fe'u cynghorwyd gan y Swyddog Monitro, drwy'r Clerc, ei fod yn gysylltiad personol ac sy'n rhagfarnu ac y byddai angen iddynt ofyn am oddefeb cyn cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio. Nid oedd yr eithriad o dan baragraff 12(2) Cod Ymddygiad yr Aelodau yn berthnasol i geisiadau cynllunio.

Roedd y ceisiadau’n ceisio gwahanol lefelau o oddefeb. Ar gais y Cynghorydd Connah, ni allai’r Swyddog Monitro gofio bod y Pwyllgor wedi rhoi’r hawl i bleidleisio ar oddefebau tebyg yn y gorffennol. Dywedodd mai'r Cynghorwyr unigol oedd i benderfynu ar lefel y cysylltiad i’w ddatgan ac a oeddent yn dymuno cyfranogi tra bo’r eitem yn cael ei hystyried ai peidio, a allai olygu nad oes cworwm i'r cyfarfodydd hynny. Fel yr Aelod Lleol, byddai gan y Cynghorydd Carver yr hawl i siarad am bum munud ym Mhwyllgor Cynllunio'r Cyngor Sir pe bai'n cael goddefeb.

Gofynnwyd i’r Cynghorwyr Clive a Cheryl Carver, a oedd yn bresennol, i gyflwyno sylwadau.

Eglurodd y Cynghorydd Clive Carver bod y cais cynllunio wedi’i gyflwyno gan Glwb Pêl-droed Hawarden Rangers a bod y Cynghorydd Cheryl Carver yn dymuno siarad fel Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio. Er ei fod yn cydnabod y cynsail ar geisiadau blaenorol, gofynnodd os yw'r oddefeb i bleidleisio'n cael ei gymeradwyo ar gyfer y Cynghorydd Connah, y dylid ymestyn hyn i'r tri ymgeisydd arall nad ydynt yn ceisio'r hawl i bleidleisio.

Mewn ymateb i gwestiynau, eglurodd y Cynghorydd Carver bod 17 aelod ar y Pwyllgor Cynllunio na fyddai angen i'w penderfyniadau gael eu cadarnhau gan y Cyngor Cymuned llawn. Eglurodd gymhlethdod y cais oherwydd natur y safle.

Ar y pwynt hwn, cynigodd y Cynghorydd Woolley y dylid gwahardd y wasg a’r cyhoedd- yn unol â Deddf Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) 1985. Gofynnodd y Cadeirydd bod y rhai yn oriel y cyhoedd yn gadael yr ystafell cyn i’r pwyllgor drafod ac y byddent yn cael eu gwahodd yn ôl i glywed y penderfyniad.

Yn ystod y drafodaeth, ceisiwyd safbwyntiau a oedd anghenion gweddill Cynghorwyr Cymuned Penarlâg, sydd heb gyflwyno goddefeb, yn ystyriaeth berthnasol, a'r pwysigrwydd o osod cynsail. Cytunwyd y byddai'r ffurflen gais yn cael ei diweddaru i adlewyrchu newidiadau i'r paragraffau lle gellir rhoi goddefeb.

Cynigodd y Cynghorydd Woolley bod y Cynghorydd Angell yn cael goddefeb ar y seiliau a nodwyd, ac fe gefnogwyd hyn. Cynigodd bod y Cynghorydd Connah yn derbyn goddefeb heb hawliau pleidleisio, ac fe gefnogwyd hyn. Cynigodd Mr. Molyneux bod y Cynghorydd Cheryl Carver yn cael goddefeb ar y seiliau a nodwyd, ac fe gefnogwyd hyn. Cynigodd y Cynghorydd Johnson bod y Cynghorydd Clive Carver yn cael goddefeb ar y seiliau a nodwyd, ac fe gefnogwyd hyn. Roedd yr holl oddefebau wedi'u cymeradwyo yn amodol ar y darpariaethau arferol o ran terfynau amser a siarad gyda swyddogion.

Gwahoddwyd y cyhoedd a'r Cynghorwyr a adawodd yr ystafell yn ôl i'r cyfarfod a'u hysbysu ynglŷn â'r penderfyniadau a fyddai'n cael eu cadarnhau'n ysgrifenedig gan y Swyddog Monitro.

Yn ystod y drafodaeth i gloi, nodwyd y gallai proses arsylwi hwyr Pwyllgor Cynllunio'r Cyngor Sir alluogi'r Cyngor Cymuned i drefnu cyfarfod arbennig i wneud penderfyniad, pe bai angen.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod Cynghorydd Sir y Fflint a Chyngor Cymuned Penarlâg Clive Carver yn derbyn goddefeb o dan baragraffau (a), (d) ac (f) o Reoliadau Pwyllgor Safonau (Cymeradwyo Goddefebau) (Cymru) 2001 i siarad ym Mhwyllgor Cynllunio Cyngor Sir y Fflint a Chyngor Cymuned Penarlâg, ond i adael cyn y drafodaeth a chyn pleidleisio ar gais rhif 060060 neu unrhyw gais sy'n debyg, ym marn y Swyddog Monitro. Mae hyn yn caniatáu cyflwyno sylwadau llafar ac ysgrifenedig ar y mater i swyddogion Cyngor Sir y Fflint ar yr amod bod o leiaf un tyst wrth siarad â swyddogion, gan sicrhau bod o leiaf 3 person yn rhan o'r sgwrs, y dylid ei chofnodi. Mae'r oddefeb i'w rhoi am 12 mis, gan ddod i ben ar 30 Mehefin 2020;

(b) Bod Cynghorydd Cymuned Penarlâg Cheryl Carver yn derbyn goddefeb o dan baragraffau (a), (d) ac (f) o Reoliadau Pwyllgor Safonau (Cymeradwyo Goddefebau) (Cymru) 2001 i siarad ym Mhwyllgor Cynllunio Cyngor Cymuned Penarlâg, ond i adael cyn y drafodaeth a chyn pleidleisio ar gais rhif 060060 neu unrhyw gais sy'n debyg, ym marn y Swyddog Monitro. Mae'r oddefeb i'w rhoi am 12 mis, gan ddod i ben ar 30 Mehefin 2020;

(c) Bod Cynghorydd Cymuned Penarlâg Joyce Angell yn derbyn goddefeb o dan baragraffau (a), (d) ac (f) o Reoliadau Pwyllgor Safonau (Cymeradwyo Goddefebau) (Cymru) 2001 i siarad ym Mhwyllgor Cynllunio Cyngor Cymuned Penarlâg, ond i adael cyn y drafodaeth a chyn pleidleisio ar gais rhif 060060 neu unrhyw gais sy'n debyg, ym marn y Swyddog Monitro. Mae hyn yn caniatáu cyflwyno sylwadau llafar ac ysgrifenedig ar y mater i swyddogion Cyngor Sir y Fflint ar yr amod bod o leiaf un tyst wrth siarad â swyddogion, gan sicrhau bod o leiaf 3 person yn rhan o'r sgwrs, y dylid ei

chofnodi. Mae'r oddefeb i'w rhoi am 12 mis, gan ddod i ben ar 30 Mehefin 2020;

(d) Bod Cynghorydd Cymuned Penarlâg Bob Connah yn derbyn goddefeb o dan baragraffau (a), (d) ac (f) o Reoliadau Pwyllgor Safonau (Cymeradwyo Goddefebau) (Cymru) 2001 i siarad ym Mhwyllgor Cynllunio Cyngor Cymuned Penarlâg, ond i adael cyn y drafodaeth a chyn pleidleisio ar gais rhif 060060 neu unrhyw gais sy'n debyg, ym marn y Swyddog Monitro. Mae'r oddefeb i'w rhoi am 12 mis, gan ddod i ben ar 30 Mehefin 2020; a

(e) Bod y ffurflen gais am oddefeb yn cael ei diweddaru a'i dosbarthu.

**12. <u>AMRYWIO TREFN Y RHAGLEN</u>**

Cytunwyd y dylid newid trefn y rhaglen er mwyn symud eitem rhif 6 ymlaen er budd y rhai yn oriel y cyhoedd.

**13. <u>ADRODDIADAU O YMWELIADAU AELODAU ANNIBYNNOL Â CHYNGHORAU TREF/CYMUNED</u>**

Cyflwynodd yr aelodau annibynnol canlynol eu hadroddiadau llafar:

Mr. Jonathan Duggan-Keen –Cynghorau Cymuned Penarlâg, Chwitffordd a Gwernaffield a Phantymwyn
Mrs. Julia Hughes- Cynghorau Tref Cei Connah a'r Fflint

Yn ystod ei hadroddiad ar Gyngor Tref Cei Connah, nododd y Cadeirydd y byddai'n ddefnyddiol pe bai'r holl Gynghorau Tref / Cymuned yn gosod trefniadau amgen i alluogi cyhoeddi rhaglenni a gwybodaeth berthnasol pe digwydd nad yw'r Clerc ar gael. Dywedodd hefyd y gallai aelod o'r cyhoedd sy'n holi am fynychu cyfarfod gael gwybod bod y cyfarfod yn debygol o fod yn un byr a'u cynghori ynglŷn â'r gweithdrefnau, er enghraifft, sefyll pan fo'r Cadeirydd yn dod i'r ystafell, eu cynghori ynglŷn â sesiynau gwybodaeth i'r cyhoedd neu egluro pam fod eitem yn cael ei heithrio rhag y wasg neu'r cyhoedd.

Gan nad oedd Clerc Cyngor Tref y Fflint wedi derbyn adborth gan y Pwyllgor Safonau a ddosbarthwyd dros e-bost, gofynnodd y Cadeirydd bod yr holl lythyrau adborth hyd yma'n cael eu postio ato. Awgrymodd hefyd y gofynnir i Glercod gadarnhau eu bod wedi derbyn llythyrau adborth a anfonwyd drwy e-bost.

Codwyd y pwyntiau canlynol a fydd yn cael eu hadrodd yn ôl i Gynghorau Tref a Chymuned:

- Byddai darparu arwyddion enwau ar gyfer aelodau pwyllgor yn cynorthwyo'r arsylwyr i adnabod y siaradwyr;
- Pwysigrwydd nodi'r rhesymau dros ddatgan cysylltiad;
- Darparu cyfarwyddiadau clir i leoliadau cyfarfod a meysydd parcio.

Ar ôl cynnal y pedwar ymweliad terfynol (gan gynnwys ymweliad y Cadeirydd i Gyngor Tref Shotton ar 8 Gorffennaf), byddai adroddiad cyffredinol yn cael ei gyflwyno i'r cyd-gyfarfod gyda'r Cynghorau Tref a Chymuned ar 30 Medi.

**PENDERFYNWYD:**

Y derbynnir yr adroddiadau llafar ac y rhoddir adborth i'r Cynghorau Tref a Chymuned.

## 14. EITEMAU I'W GOHIRIO

Oherwydd y cyfyngiadau amser ac er mwyn rhoi ystyriaeth briodol i'r eitemau ar y rhaglen, cytunwyd y byddai eitemau 5 (y wybodaeth ddiweddaraf am Gynnydd Trosglwyddo Asedau Cymunedol) a 7 (Adborth gan y Fforwm Safonau) yn cael eu gohirio tan fis Medi.

## 15. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL

Ystyriwyd y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol, gan nodi'r ddwy eitem sy'n cael eu gohirio o'r cyfarfod hwn.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 2 Medi a fyddai'n cynnwys Adolygu Safon Sir y Fflint a Llyfr Achos Cod Ymddygiad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (PSOW). Cytunwyd na fyddai unrhyw hyfforddiant gan olygu y gellir dechrau am 6pm.

Byddai'r cyfarfod ar 30 Medi yn cynnwys adroddiad cyffredinol ar ymweliadau i Gynghorau Tref / Cymuned, yr eitem a awgrymwyd ar weithgareddau y tu hwnt i rôl Cynghorydd ac Adroddiad Blynyddol Panel Dyfarnu Cymru.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol.

## 16. AELODAU'R WASG A'R CYHOEDD YN Y CYFARFOD

Roedd dau aelod o'r cyhoedd yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 6.30 pm a daeth i ben am 9.00 pm)

……………………………………………

**Cadeirydd**